
# Cyngor glanhau a chynnal a chadw cyffredinol

Dyma rai cynghorion buddiol i gadw'ch cymhorthion Danalogic Hearing yn y cyflwr gorau posibl:

- Cadwch eich cymhorthion clyw yn lân a sych. Gallwch ddefnyddio cadach meddal neu hances bapur i dynnu saim neu leithder a sicrhewch fod eich dwylo yn lân a sych
- Peidiwch â defnyddio dŵr na thoddyddion i lanhau'ch cymhorthion clyw, na'u rhoi mewn dŵr neu hylifau eraill
- Osgowch ollwng eich cymhorthion clyw ar arwynebau caled
- Peidiwch â gadael eich cymhorthion clyw mewn nac yn agos at olau haul uniongyrchol, megis mewn car poeth, wedi'i barcio, gan y gall gwres gormodol achosi difrod i'r casin
- Peidiwch â'u gwisgo tra'n cymryd cawod, yn nofio, mewn glaw trwm nac mewn awyrgylch llaith megis sawna
- Tynnwch eich cymhorthion clyw wrth roi eich colur, persawr, hylif ar ôl eillio, chwistrell gwallt neu hufen gan y gall y rhain ddifrodi'ch cymhorthion clyw
- Yn ogystal â'r rhain, gwiriwch eich tiwb tenau, cromen, tiwbiau, mowld clust am rwystrau amlwg a glanhewch yn briodol



Ar frig / meingefn y cymorth clyw mae dau fewndwll meicroffon. (Ar y naill ochr a'r llall i'r botwm gwthio ar y brig). Mae'r meicroffonau yn cael eu diogelu gan hidlydd sain-dryloyw; ond, fel unrhyw hidlydd, gallant gael eu llenwi â llwch a gweddillion.

Defnyddiwch frwsh glanhau cymorth clyw i frwsio dros bob mewndwll meicroffon am yn ail ddiwrnod.

Am ragor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth cleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**

Y dewis cywir i'r GIG

danalogic GN

UK 10.92 B 02.2025